Arthur MacLoughlin Broome 1779–1837

Sylfaenydd yr RSPCA, yr elusen sy'n gofalu am anifeiliaid

Ganwyd Arthur MacLoughlin Broome ar 18 Chwefror 1779 ac fe'i bedyddiwyd yn Sidbury, Dyfnaint, ar 28 Awst 1785. Mab ydoedd i Arthur a Frances Broom. Aeth i Goleg Balliol ym mis Mawrth 1798 gan ennill gradd BA. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn Eglwys Loegr ym 1803 gan esgob Llundain. Bu'n gurad ym mhlwyfi Brook a Hinxhill yng Nghaint ac yna yn Cliffe-at-Hoo. Yna fe'i penodwyd yn ficer St Mary's-Bromley-St Leonard, Middlesex, ym 1820.

Cyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ystyrid anifeiliaid yn ddim mwy nag eiddo y gallai perchenogion wneud beth bynnag a fynnent gyda hwy. Golygai hyn fod rhai anifeiliaid yn cael eu cam-drin yn ddychrynllyd gan nad oedd unrhyw gyfreithiau i'w hamddiffyn. Pasiwyd y ddeddf gyntaf i amddiffyn anifeiliaid yn San Steffan ym 1822, a hynny o dan arweiniad medrus Richard Martin, Aelod Seneddol o Ddulyn.

Ceisiwyd, yn aflwyddiannus, sefydlu cymdeithas atal creulondeb tuag at anifeiliaid ym 1809. Ailgydiwyd yn y weledigaeth ym 1822 gan y Parch. Arthur Broome. Aeth ef ati i sefydlu cymdeithas i hyrwyddo gweithredu deddf Martin a hybu hawliau anifeiliaid. Hysbysebodd y gymdeithas yn y cylchgrawn poblogaidd *John Bull*. Er na ddaeth dim o hyn ar y pryd fe ddyfalbarhaodd. Talodd Broome o'i boced ei hun i gyflogi Charles Wheeler i chwilio am achosion o gam-drin anifeiliaid fel y gellid erlyn y bobl oedd yn gyfrifol.

Y flwyddyn ddilynol, cyhoeddodd bamffled gan Humphrey Primatt sef *A Dissertation on the Duty of Mercy and Sin of Cruelty to Brute Animals.* Rhoddwyd troednodyn ar y pamffled y byddai unrhyw elw a wneid o'r gwerthiant er budd y Society for the Prevention of Cruelty to Animals – er nad oedd hi'n bodoli ar y pryd.

Yr oedd ei ail ymdrech i sefydlu cymdeithas yn llwyddiannus. Cyfarfu nifer o wŷr bonheddig yn yr Old Slaughter's Coffee House yn Westminster

ym Mehefin 1824. Yno yr oedd 22 o ddynion yn cynnwys Syr Thomas Foxwell Buxton, Aelod Seneddol a Chrynwr ac aelod o Sect Clapham, fel cadeirydd, tri offeiriad, a phum Aelod Seneddol – yn cynnwys William Wilberforce – ac Iddew o'r enw Lewis Gompertz.

Yno, sefydlwyd cymdeithas a'i phrif nod oedd atal creulondeb tuag at anifeiliaid a cheisio newid agwedd meddwl pobl tuag at hyn. Penodwyd Broome yn ysgrifennydd ac ym 1824 rhoddodd y gorau i fod yn offeiriad er mwyn cymryd at y gwaith yn llawnamser. Sefydlwyd dau is-bwyllgor, y naill i ddylanwadu ar y farn gyhoeddus a'r llall i fabwysiadu dulliau i archwilio marchnadoedd, strydoedd Llundain, lladd-dai ac ymddygiad gyrwyr coets fawr.

Yn fuan iawn cyhoeddwyd y pamffled *Cruelty to Brutes* a ysgrifennwyd gan Mrs Hall yn tynnu sylw at greulondeb tuag at deirw. Ariannwyd y gymdeithas i gychwyn gan roddion a Broome ei hun – er nad oedd yn ddyn cefnog. Erbyn Ionawr 1826 roedd y gymdeithas mewn dyled o £300. Er iddynt dderbyn rhodd o £100 carcharwyd Broome oherwydd gweddill y ddyled ac ymddiswyddodd o'r gwaith ym 1828.

Er hynny bu'r gymdeithas yn llwyddiant yn ystod ei gyfnod fel ysgrifennydd. Cyhoeddwyd nifer o bamffledi ac yr oedd Charles Wheeler wedi casglu llawer o dystiolaeth am greulondeb. Penodwyd dyn arall i gynorthwyo Wheeler ac yn ystod y chwe mis cyntaf o weithredu daethpwyd â 63 o ddrwgweithredwyr o flaen eu gwell. Derbyniodd y Gymdeithas nawdd brenhinol drwy i'r frenhines Victoria roi ei chefnogaeth iddi ym 1840. O ganlyniad gellid gosod y gair 'Brenhinol' fel rhan o enw'r gymdeithas. Am ryw reswm collodd Broome ddiddordeb yn y gymdeithas a diflannodd o'r gweithgareddau a'r ymgyrch. Bu farw ar 16 Gorffennaf 1837 yn Birmingham a rhoddwyd angladd tlotyn iddo yn Eglwys Sant Philip.